



Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd

Mehefin 2016

Cynnwys

1.0	CYFLWYNIAD.....	2
2.0	CEFNDIR.....	3
3.0	BETH YW'R PRIF BROBLEMAU?.....	4
4.0	DULL GWEITHREDU AR GYFER GWAITH FFORDD A GWAITH STRYD	4
5.0	YMYRIADAU ALLWEDDOL.....	5
A.	GWELLA'R DULL O GYNLLUNIO, CYDLYNU A CHYFLAWNI GWAITH FFORDD A GWAITH STRYD	5
B.	GWELLA'R DULL O GYFLENWI PROSIECTAU TRAFNIDIAETH MAWR	7
C.	GWELLA CYFATHREBU Â'R CYHOEDD A BUSNESAU	7
D.	SGILIAU A HYFFORDDIANT.....	8
E.	DIWYLLIANT	8
	ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU	9
	ATODIAD 2 – DEDDFWRIAETH GWAITH FFORDD A GWAITH STRYD	12
	DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991.....	12
	DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004	12
	OFFERYNNAU STATUDOL.....	12
	RÔL RHEOLWR TRAFFIG.....	13

1.0 Cyflwyniad

Mae gwaith ffordd a gwaith stryd yn hanfodol ar gyfer cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith ffyrdd a'r gwasanaethau o'i fewn. Ond, gallant hefyd ymyrryd yn sylweddol ar draffig ac achosi oedi mawr. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o geisio gwella'r sefyllfa ac mae wedi datblygu'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud i'r broses o gynllunio, cydlynu a chyflawni'r gwaith hwn.

Gweinidogion Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru. Mae gennym dros 75 milltir o draffordd a dros 1000 o filltiroedd o gefnffyrdd. Mae'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd hwn yn nodi'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau ar draws ei rhwydwaith ei hun, gan annog awdurdodau lleol hefyd i fabwysiadu arferion gorau tebyg ar gyfer y ffyrdd lleol y maent hwy yn gyfrifol amdanynt.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd wneud Rheoliadau newydd a chyflwyno Codau Ymarfer newydd ar gyfer y diwydiant gwaith stryd yng Nghymru. Felly, mae'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd hwn yn disgrifio meysydd fel Rheoliadau a Chodau Ymarfer a fydd yn dod yn destun ymgynghori.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gwneud ymrwymiadau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod â newid go iawn a pharhaol i bobl Cymru. Mae'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yn berthnasol iawn ar gyfer cyflawni'r nodau o Gymru ffyniannus a chadarn.

Dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, cyflwynwyd dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr, a darparu'n well ar eu cyfer. Dylai gwaith ffordd a gwaith stryd sicrhau darpariaeth addas i gerddwyr, gan gynnwys pobl â nam ar y golwg, pobl anabl, a beicwyr.

Mae rheoli a chydlynu gwaith ffordd a gwaith stryd yn effeithiol yn allweddol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn. Mae gwaith o'r fath yn hanfodol i gynnal a chadw neu i wella gwasanaethau i gymunedau neu i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd rydym i gyd yn dibynnu arno'n parhau i weithio. Ond, gall gwaith ffordd a gwaith stryd sydd wedi'i gynllunio'n wael achosi oedi difrifol i ddefnyddwyr ffyrdd a chael effaith andwyol ar economi Cymru.

Mae'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yn nodi uchelgais i wella'n sylweddol y ffordd y caiff gwaith ffordd a gwaith stryd ei reoli, gan sicrhau, tra mae gwaith yn cael ei gyflawni a bod gan gymunedau'r gwasanaethau a'r seilwaith a gynhelir yn dda y maent yn dibynnu arnynt, bod Cymru ar yr un pryd yn dal yn agored ar gyfer busnes.

2.0 Cefndir

Mae “gwaith ffordd” (neu “gwaith at ddibenion ffordd”) yn waith a gyflawnir fel arfer gan awdurdodau priffyrdd i atgyweirio neu gynnal a chadw priffyrdd neu osod priffordd newydd yn lle hen un, sydd o dan gyfraith priffyrdd yn cynnwys y droetffordd neu'r palmant.

Mae “gwaith stryd” yn cael ei wneud gan ymgymeryddion statudol, neu drwyddedeion o dan Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, neu eu contractwyr i osod, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio cyfarpar neu osod cyfarpar newydd yn lle hen rai. Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau cyfleustodau (nwy, trydan ac ati) yn ymgymeryddion statudol. Mae gan ymgymeryddion statudol ddyletswydd neu hawl statudol i osod, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio neu osod cyfarpar newydd yn lle hen rai, yn y stryd neu o dan y stryd, mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Ar hyn o bryd, mae gwaith ffordd a gwaith stryd yn cael ei reoli yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004.

Mae Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, gyda chefnogaeth Rheoliadau a Chodau Ymarfer, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith stryd gan ymgymeryddion (gan gynnwys cyfleustodau) a gwaith at ddibenion ffyrdd - i'r graddau bod yn rhaid i hwn gael ei gydlynw gan awdurdodau priffyrdd (Adran 59).

Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn darparu pwerau ychwanegol i leihau tagfeydd: mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer dynodi swyddogion Traffig; mae Rhan 2 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau traffig lleol i reoli eu rhwydwaith ffyrdd i sicrhau y gall traffig symud yn ddirwystr ar eu ffyrdd ac ar ffyrdd awdurdodau traffig eraill; mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer cyflwyno cynlluniau trwyddedau ar gyfer gwaith ffordd a gwaith stryd; mae Rhan 4 yn rhoi pwerau cryfach i awdurdodau priffyrdd lleol gyfarwyddo pryd y cyflawnir gwaith neu ble y gosodir cyfarpar newydd; ac mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Mae Adran 9, rhan 2 (b) yn datgan yn benodol bod yn rhaid iddynt roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli gwaith ffordd a gwaith stryd yr un fath i Gymru ac i Lloegr, mae'r dull ychydig yn wahanol oherwydd y cyflwynwyd Rheoliadau a Chodau Ymarfer ar adegau gwahanol.

Mae Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru yn cynnig fforwm cydweithredol gwerthfawr i awdurdodau priffyrdd ac ymgymeryddion drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb a chytuno ar ddulliau a chymau gweithredu ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor

Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru yn ogystal â grŵp y Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau cenedlaethol i ddatblygu'r agenda gwaith ffordd a gwaith stryd yng Nghymru.

3.0 Beth yw'r Prif Broblemau?

Ers ei chyflwyno ddechrau'r 1990au, mae deddfwriaeth i reoli gwaith ffordd a gwaith stryd wedi gwella perfformiad awdurdodau priffyrdd ac ymgymeryr yn fawr. Fodd bynnag, mae'n anochel bod tagfeydd yn digwydd ar y rhwydwaith oherwydd y gwaith hwn a thros amser cafwyd adegau pan amharwyd yn fwy nag oedd raid ar draffig oherwydd gwaith sy'n para'n hirach na'r disgwyl neu waith sy'n gwrthdaro.

Lleisiwyd pryderon am y broses o reoli gwaith ffordd a gwaith stryd yng Nghymru yn ystod dau ymchwiliad diweddar.

Yn ei adroddiad yn 2011 ar brosiectau trafniadaeth mawr, tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru sylw at yr effaith niweidiol y gall oedi wrth newid neu adnewyddu gwasanaethau ac offer ymgymeryr statudol ei chael ar gostau alldro ac ar y cyhoedd wrth iddynt deithio.

Yn ogystal, pwysleisiodd ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Werth am Arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd" y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Mehefin 2015, ar ôl adolygu'r dystiolaeth o'r diwydiant cyfan, fod y rheolaeth wael barhaus ar waith ffordd a gwaith stryd a'i effaith andwyol ar gostau prosiectau ac ar ddefnyddwyr ffyrdd, yn fater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo.

4.0 Dull Gweithredu ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ffordd a gwaith stryd yng Nghymru yw y caiff ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau'r oedi lleiaf posibl i'r cyhoedd a busnesau ac ar yr un pryd yn hwyluso gwaith hanfodol i gynnal a chadw a gwella'r gwasanaethau a'r seilwaith mae cymunedau a'r economi'n dibynnu arnynt.

I gyflawni hyn, ni chynigir unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Drwy weithio mewn partneriaeth â'i chadwyn gyflenwi ac ymgymeryr ac awdurdodau priffyrdd drwy Bwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru, gellir gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff gwaith ffordd a gwaith stryd ei reoli er budd Cymru o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. A hithau'n uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, sy'n cludo mwy na thraean o holl draffig Cymru, mae gan Lywodraeth Cymru hefyd rôl bwysig yn arwain drwy esiampl y gwaith o fabwysiadu arferion gorau.

Er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol i bobl ac i economi Cymru, bydd camau'n cael eu cymryd mewn pum maes allweddol:

- A. Gwella'r dull o Gynllunio, Cydlynu a Chyflawni Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd;
- B. Gwella'r Dull o Gyflenwi Prosiectau Trafnidiaeth Mawr;
- C. Gwella Cyfathrebu â'r Cyhoedd a Busnesau;
- D. Sgiliau a Hyfforddiant; a
- E. Diwylliant

5.0 Ymyriadau Allweddol

A. Gwella'r Dull o Gynllunio, Cydlynu a Chyflawni Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd

Dros y degawd diwethaf, mae'r gwaith o wneud Rheoliadau a chyhoeddi a diweddarau Codau Ymarfer wedi digwydd yn gynt yn Lloegr nag yng Nghymru. Efallai y bydd rhai o'r Rheoliadau a Chodau Ymarfer sydd wedi'u cyflwyno yn Lloegr yn unig yn cael effaith fuddiol ar y gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith yng Nghymru. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl Reoliadau a Chodau Ymarfer sydd mewn grym yn y DU i ganfod lefel y cydymffurfio a'u perthnasedd i Gymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno'r rheini a fyddai'n fuddiol i Gymru erbyn mis Hydref 2016. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i lunio arweiniad lle nad yw'n briodol rheoleiddio. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofynion newydd megis y Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu mabwysiadu gan y sector gwaith stryd yng Nghymru.*

Gyda chynifer o ymgwymerwyr statudol ac awdurdodau priffyrdd yn cystadlu am le ar y ffyrdd, mae dull effeithlon ac effeithiol o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr amharu sy'n digwydd cyn lleied â phosibl.

Ni ellir cyflawni hyn ond drwy gael gwybodaeth gywir ac amserol ar yr holl waith sydd yn yr arfaeth ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae cyflwyno hysbysiadau am waith ymgwymerwyr eisoes yn un o ofynion y ddeddfwriaeth ac mae rhai awdurdodau priffyrdd hefyd yn cofnodi eu gwaith eu hunain er mwyn cyflawni eu dyletswydd rheoli traffig yn effeithiol. Ond, mae'r arferion yn amrywio ledled Cymru ac yn aml mae gwybodaeth yn anghyflawn neu wedi dyddio. Yn ogystal, gall dynodiadau fel sensitifrwydd traffig, Llwybrau Teithio Llesol, llwybrau i dwristiaid newid dros amser a rhaid cynnal y Rhestr Strydoedd i sicrhau bod y wybodaeth hon yn gywir. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cyflwynir hysbysiadau ar gyfer yr holl waith (gan gynnwys ei gwaith ei hun a gwaith 3ydd partion, e.e. Gwaith Adran 38 ac Adran 278) ar y cefnffyrdd yn unol â chanllawiau a rheoliadau o fis Hydref 2016 ymlaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar beirianweithiau i wella'r cydlynu ar y lefel strategol i sicrhau*

yr ymgynghorir yn well â rhanddeiliaid ar hyd y rhwydwaith cefnffyrdd. Bydd Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth a hyrwyddo'r defnydd o'r Cerdyn Sgorio Perfformiad Chwarterol i fonitro perfformiad;

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Rhestr Strydoedd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (gan gynnwys Data Strydoedd Ychwanegol) yn fisol o fis Gorffennaf 2016 ymlaen, ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth; a*
- *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chonchesiynydd y Rhestr Strydoedd Genedlaethol i annog pob ymgymwr sy'n gweithio yng Nghymru ac awdurdodau priffyrdd yng Nghymru i gyflawni lawrlwythiadau bob mis o'r 'hwb' cenedlaethol o fis Gorffennaf 2016 ymlaen.*

Mae nifer o wahanol dulliau wedi cael eu mabwysiadu ledled y DU i wella'r gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith ffordd a gwaith stryd. Mae'r rhain yn amrywio o godau ymarfer anffurfiol i gynlluniau trwyddedau a rhentu lôn ffurfiol o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae cynlluniau trwyddedau'n cynnig dewis arall yn lle'r system hysbysiadau (yn unol â Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991). Yn hytrach na hysbysu'r awdurdod priffyrdd am ei fwiad i gyflawni gwaith, bydd yn rhaid i hyrwyddwr wneud cais am drwydded (caniatâd) i feddiannu'r briffordd, gan ddileu eu hawl statudol. Mae'r Cynllun Trwyddedau'n berthnasol i bob gwaith gan gynnwys gweithgareddau'r awdurdod priffyrdd ei hun.

Mae nifer o fanteision posibl i gyflwyno cynllun trwyddedau ffurfiol gan gynnwys: gwell cydgysylltu a chydweithredu; gweithio'n well mewn partneriaeth rhwng rhanddeiliaid; cyfathrebu gwell; amseru gwell a gostyngiad yn hyd y gwaith a blaengynllunio gwell. Ond, mae anfanteision posibl gan gynnwys y gost uwch i ymgymrwyr statudol ac o bosibl i'w cwsmeriaid. Mae ffioedd i'w talu ar gyfer rhoi trwyddedau i dalu'r costau gweinyddu uwch y bydd awdurdodau priffyrdd yn eu hwynebu.

Diwygiwyd Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Lloegr) 2007 yn 2015 sy'n golygu nad oes raid i awdurdodau priffyrdd yn Lloegr sy'n dymuno cyflwyno cynllun trwyddedau gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mwyach cyn y gellir rhoi cynllun ar waith. Mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn gweithredu cynlluniau o'r fath yng Nghymru wedi cael ei gadw. Gwnaethpwyd hyn i sicrhau yn gyntaf bod yr achos busnes dros eu cyflwyno yn gadarn ac yn ail, os oes ei angen, y mabwysiadir dull cyson ledled Cymru fel nad oes raid i fusnesau ymdopi â phrosesau gweinyddol amrywiol iawn. Felly:

- *Mae Llywodraeth Cymru yn aros yn niwtral ar gynlluniau trwyddedau ac nid yw'n eu hyrwyddo'n benodol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag unrhyw randdeiliad sy'n dymuno cyflwyno cynllun trwyddedau i ganfod a oes achos busnes cadarn dros*

gyflwyno cynllun trwyddedau yng Nghymru gan ddilyn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru; ac

- *Os bydd achos busnes yn sefydlu mai cynlluniau trwyddedau yw'r ffordd orau o wella'r gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith ffordd a gwaith stryd yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi arweiniad.*

B. Gwella'r Dull o Gyflenwi Prosiectau Trafnidiaeth Mawr

Mae newid neu adnewyddu gwasanaethau ac offer ymgwymerwyr statudol yn aml ar y llwybr critigol wrth raglennu gwaith cyflenwi prosiectau trafndiaeth mawr. Nid yn unig mae oedi wrth gyflawni'r gwaith hwn yn golygu yr amharir ar y cyhoedd sy'n teithio, mae hefyd yn gallu cynyddu'r costau'n sylweddol. Mae gwelliannau pwysig a sylweddol wedi'u gwneud i ddibynadwyedd y gwaith o raglennu prosiectau a rheoli costau, ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gellir gwneud mwy: Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu cod ymarfer gwirfoddol er mwyn gwella'r cydweithio ar brosiectau mawr. Y nod fydd cael pob rhanddeiliad i ymrwymo iddo erbyn mis Hydref 2017. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu prosiectau na fuont mor llwyddiannus a bydd yn ystyried datblygu cynlluniau ac astudiaethau achos cyfredol a hyrwyddir gan y Cyd-grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol.*

C. Gwella Cyfathrebu â'r Cyhoedd a Busnesau

Mae cyhoeddi gwybodaeth gywir ac amserol cyn gwaith ffordd a gwaith stryd yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd a busnesau wneud penderfyniadau gwybodus am eu trefniadau teithio a deall effaith gwaith y tu allan i'w heiddo.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cymorth i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gadael iddynt gyhoeddi gwybodaeth gryno am waith stryd ar wefan ganolog. Hefyd, mae llawer o awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau eu hunain ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ar ei rhwydwaith ei hun drwy wefan Traffig Cymru www.trafficwales.com. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy i wella ansawdd y wybodaeth, beth a gwmpesir gan y wybodaeth a pha mor rhwydd yw cael gafael arni. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a busnesau am waith ffordd a gwaith stryd erbyn mis Ebrill 2017. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio pa ddulliau sydd ar gael i wella'i systemau gwybodaeth ei hun a bydd yn gweithio gyda'r Cyd-grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol i ddatblygu'u dogfen Egwyddorion Cyfathrebu Da.*

D. Sgiliau a Hyfforddiant

Dylai pawb sy'n gweithio ar y priffyrdd fod â'r cymwysterau priodol ac yn ddigon cymwys i sicrhau diogelwch y gweithlu a'r cyhoedd sy'n teithio. O dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, rhaid i'r gwaith o osod, adnewyddu, cynnal a chadw ac archwilio cyfarpar tanddaearol mewn unrhyw stryd neu ffordd gael ei wneud gan staff cymwys a hyfforddedig. Yn Lloegr, rhaid i weithwyr ffordd ailymgeisio am eu hachrediad bob 5 mlynedd (gofyniad a gyflwynwyd yn 2009), sy'n achosi costau gweinyddu. Ar hyn o bryd, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno newidiadau yn ddiweddar i'r modiwlau cymwysterau a'r Cerdyn Gwaith Stryd. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ymgynghori yn ystod 2016, i ganfod a yw'r drefn hyfforddiant bresennol yn effeithiol ar gyfer sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, neu a fydd cyflwyno proses ailasesu ffurfiol yn codi safonau diogelwch a chydymffurfiaeth gwaith gweithredol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y newidiadau a gyflwynir gan yr Adran Drafnidiaeth.*

E. Diwylliant

Rydym am weld newid sylweddol yn ein perfformiad a diwylliant o newid parhaus ar draws y diwydiant. I gyflawni hyn, bydd angen inni allu mesur ein cynnydd, pennu'n glir beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio a chyfraniad pob un o'r rhanddeiliaid. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mesur argaeledd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd erbyn mis Hydref 2016 fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar reoli'r rhwydwaith;*
- *Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad y rhwydwaith cefnffyrdd ac yn datblygu rhaglen o welliannau i roi sylw i "fannau cyfyng" a gwella cadernid y rhwydwaith erbyn mis Ebrill 2017; a*
- *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu dull "cerdyn sgorio cytbwys" ar gyfer mesur perfformiad sefydliadau yng Nghymru drwy hyrwyddo'r Cerdyn Sgorio Perfformiad Chwarterol gyda'r nod o gael yr holl rhanddeiliaid yn cyflwyno'u data iddo erbyn mis Ebrill 2017. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod data Cymru yn cael ei echdynnu'n effeithiol ac yn cael ei gyhoeddi er mwyn sicrhau'r ymddygiad priodol wrth ddiwallu'r amcanion datganedig.*

Atodiad 1 – Crynodeb o'r Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Dyddiad
A. Gwella'r Dull o Gynllunio, Cydlynu a Chyflawni Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd	
Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl Reoliadau a Chodau Ymarfer sydd mewn grym yn y DU i ganfod lefel y cydymffurfio a'u perthnasedd i Gymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno'r rheini a fyddai'n fuddiol i Gymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i lunio arweiniad lle nad yw'n briodol rheoleiddio. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofynion newydd megis y Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu mabwysiadu gan y sector gwaith stryd yng Nghymru.	Erbyn mis Hydref 2016
Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cyflwynir hysbysiadau ar gyfer yr holl waith (gan gynnwys ei gwaith ei hun a gwaith 3 ^{ydd} partïon, e.e. Gwaith Adran 38 ac Adran 278) ar y cefnffyrdd yn unol â chanllawiau a rheoliadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar beirianweithiau i wella'r cydlynu ar lefel strategol i sicrhau yr ymgynghorir yn well â rhanddeiliaid ar hyd y rhwydwaith cefnffyrdd. Bydd Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth a defnyddio'r Cerdyn Sgorio Perfformiad Chwarterol i fonitro'u perfformiad.	O fis Gorffennaf 2016
Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r rhestr strydoedd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (gan gynnwys Data Strydoedd Ychwanegol) yn fisol, ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud hyn hefyd.	O fis Gorffennaf 2016
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chonresiynydd y Rhestr Strydoedd Genedlaethol i annog pob ymgymwrwr sy'n gweithio yng Nghymru ac awdurdodau priffyrdd yng Nghymru i gyflawni lawrlwythiadau bob mis o'r 'hwb' cenedlaethol.	O fis Gorffennaf 2016
Bydd Llywodraeth Cymru yn aros yn niwtral ar gynlluniau trwyddedau ac nid yw'n eu hyrwyddo'n benodol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ganfod a oes achos busnes cadarn dros gyflwyno cynlluniau trwyddedau yng Nghymru gan ddilyn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.	Parhaus
Os bydd achos busnes yn sefydlu mai cynlluniau	Parhaus

trwyddedau yw'r ffordd orau o wella'r gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith ffordd a gwaith stryd yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi arweiniad.	
B. Gwella'r Dull o Gyflenwi Prosiectau Trafnidiaeth Mawr	
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Prifffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu cod ymarfer gwirfoddol er mwyn gwella'r cydweithio ar brosiectau mawr. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu gwaith blaenorol i ddeall pam y bu ymdrechion blaenorol yn aflwyddiannus a bydd yn ystyried adeiladu ar gynlluniau cyfredol ac astudiaethau achos a hyrwyddir gan NJUG.	Erbyn mis Hydref 2017
C. Gwella Cyfathrebu â'r Cyhoedd a Busnesau	
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Prifffyrdd a Chyfleustodau Cymru i wella ansawdd y wybodaeth am waith ffordd a gwaith stryd sydd ar gael i'r cyhoedd a busnesau. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio pa ddulliau sydd ar gael i wella'i systemau gwybodaeth ei hun a bydd yn gweithio gyda'r Cyd-grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol i ddatblygu'u dogfen Egwyddorion Cyfathrebu Da.	Ebrill 2017
D. Gwell Safon Sgiliau a Hyfforddiant yn y Sector	
Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer ymgynghori i ganfod a yw'r drefn hyfforddiant bresennol yn effeithiol ar gyfer sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, neu a fydd cyflwyno proses ailasesu ffurfiol yn codi safonau diogelwch a chydymffurfiaeth gwaith gweithredol.	Yn ystod 2016
E. Hyrwyddo Diwylliant o Welliant Parhaus	
Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mesur argaeledd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar reoli'r rhwydwaith.	Erbyn mis Hydref 2016
Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad y rhwydwaith cefnffyrdd ac yn datblygu rhaglen o welliannau i roi sylw i "fannau cyfyng" a gwella cadernid y rhwydwaith erbyn mis Ebrill 2017.	Ebrill 2017
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Prifffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu dull "cerdyn sgorio cytbwys" ar gyfer mesur perfformiad sefydliadau yng Nghymru drwy hyrwyddo'r Cerdyn Sgorio Perfformiad Chwarterol gyda'r nod o gael yr holl rhanddeiliaid yn cyflwyno'u data. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod data Cymru yn cael	Erbyn mis Ebrill 2017

ei echdynnu'n effeithiol ac yn cael ei gyhoeddi er mwyn sicrhau'r ymddygiad priodol wrth ddiwallu'r amcanion datganedig.	
--	--

Atodiad 2 – Deddfwriaeth Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd

Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991

Mae dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gynnal a chadw eu ffyrdd o dan Ran IV o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac mae unrhyw waith ffordd y maent yn ei gyflawni'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth hon. Y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd yw'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli gwaith yr ymgwymerwyr.

Caniateir i ymgwymerwyr gyflawni gwaith stryd yn rhinwedd eu hawl statudol, neu drwydded a roddir o dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd ac nid oes angen cydsyniad ymlaen llaw yr awdurdod priffyrdd neu strydoedd arnynt o anghenraid.

Deddf Rheoli Traffig 2004

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Traffig i roi mwy o reolaethau i awdurdodau strydoedd mewn ymateb i'r nifer cynyddol o gwmnïau cyfleustodau a'r lefelau tarfu cysylltiedig. Yn benodol, mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn ymdrin ag ansawdd a chyflymder y gwaith adfer, yr hysbysiad a roddir am waith arfaethedig a'r broses o gydlynu'r gwaith hwnnw.

Roedd Rhan 4 o'r Ddeddf Rheoli Traffig yn diwygio'r ddeddfwriaeth i roi llawer mwy o bwerau i awdurdodau strydoedd i leihau tarfu diangen a achosir gan waith sydd wedi'i gynllunio'n wael: mae gan awdurdodau strydoedd mwy o reolaeth dros ble a phryd y gellir ac na ellir gwneud gwaith; gallant osod cyfyngiadau hirach i warchod strydoedd sy'n cael eu tyllu dro ar ôl tro; ac mae ganddynt ragor o bwerau gorfodi.

Offerynnau Statudol

Mae'r Offerynnau Statudol canlynol wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru:

Offerynnau Statudol (Cymru)	Rhif
Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009	1268 (W.115)
Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009	1267 (W.114)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008	102 (W.15)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008	540 (W.52)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Cymru) (Diwygio) 2007	1713 (W.150)
Gorchymyn Rheoli Traffig (Canllawiau ar Feini Prawf Ymyrryd) (Cymru) 2007	1712 (W.149)
Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007	3174 (W.279) (C.130)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005	1812 (W.142)

Ar wefan Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru ceir rhestr lawn o Offerynnau Statudol cyfredol Cymru a gellir mynd atynt drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <http://www.whauc.com>

Rôl Rheolwr Traffig

Rhaid i bob awdurdod priffyrdd yng Nghymru a Lloegr benodi Rheolwr Traffig a rôl y Rheolwr Traffig yw cyflawni'r fath dasgau y mae'r awdurdod yn barnu y byddant yn ei gynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd rheoli rhwydwaith (Deddf Rheoli Traffig, SI 17(2)). Mae swydd y Rheolwr Traffig yn un o nifer o swyddi statudol y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu darparu, er na osodir y ddyletswydd ar y Rheolwr Traffig. Mae tri maes eang y mae angen i'r Rheolwr Traffig eu hystyried: delio â thagfeydd; lleihau tarfu yn sgil digwyddiadau neu waith wedi'i gynllunio; a chynllunio ar gyfer yr hyn sydd heb ei gynllunio.

Mae'r ddyletswydd rheoli rhwydwaith ar rwydwaith yr awdurdod lleol yn cael ei flaenoriaethu yn ôl pa mor sensitif yw'r rhan honno o'r rhwydwaith i darfu. Dylai pob awdurdod lleol fod wedi datblygu hierarchaethau i'w rhwydwaith i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y rhannau hynny o'r rhwydwaith sydd fwyaf sensitif i darfu.

Os bydd awdurdod lleol yn methu â rheoli ei rwydwaith yn effeithiol, gallai Cyfarwyddwr Traffig gael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i ofalu am faterion rheoli'r rhwydwaith, ar gost yr awdurdod.

Prif amcan y ddyletswydd rheoli rhwydwaith yw i bob awdurdod lleol wneud y defnydd gorau o'r ffyrdd sy'n bodoli er budd holl ddefnyddwyr y ffyrdd. Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn caniatáu i awdurdod gymryd camau y bernir eu bod yn rhesymol ymarferol i gyflawni hyn. Mae'r Rheolwr Traffig yn bwynt canolog yn yr awdurdod ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd ac yn hyrwyddo'r angen am i'r awdurdod ystyried y ddyletswydd ymhob maes gwaith.